

Dr Dai Lloyd AC
Cadeirydd – Y Pwyllgor Iechyd, Gwasanaethau
Cymdeithasol a Chwaraeon
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

11 Gorffennaf 2017

Annwyl Dai,

Trefniadau Llywodraethu Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr: Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru – Trosolwg o Drefniadau Llywodraethu (29 Mehefin 2017).

Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru adolygiad ar y cyd pellach ar y camau a gymerwyd gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) i fynd i'r afael â'r pryderon llywodraethu a nodwyd yn 2013, a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru ar 29 Mehefin.

Trafododd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yr Adroddiad hwn yn ystod y cyfarfod ar 10 Gorffennaf a nododd y gwelliannau sydd wedi eu gwneud i'r trefniadau llywodraethu yn BIPBC. Roedd y Pwyllgor yn fodlon bod y Bwrdd ar y trywydd iawn, a chytunwyd y byddwn yn anfon copi o'r [adroddiad](#) atoch chi, a gofyn i'ch Pwyllgor ystyried y trefniadau llywodraethu yn BIPBC fel rhan o'r sesiynau craffu rheolaidd yr ydych yn eu cynnal gydag Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon a'r Gweinidog dros Iechyd y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

Yn gywir



Nick Ramsay AC
Cadeirydd

